# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn 25/11/2009

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

**Cynnwys**

1 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol

2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Dreftadaeth

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol

### Gwasanaethau Postio 2il Ddosbarth

**C8 Janet Ryder:** Pa drafodaethau mae'r Gweinidog wedi'u cael ynghylch y penderfyniad i roi holl wasanaethau postio 2il ddosbarth awdurdodau cyhoeddus Cymru, gan gynnwys cynghorau Cymru, allan i dendr? OAQ(3)0998(SJL) *Trosglwyddwyd i'w ateb yn ysgrifenedig gan y Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus*

**Y Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus (Andrew Davies):** Ni fu unrhyw benderfyniad i'w gwneud yn ofynnol i bob un o awdurdodau cyhoeddus Cymru roi ei wasanaethau allan i dendr. Ers 1 Gorffennaf 2007, mae sector cyhoeddus Cymru wedi cael manteisio ar gytundeb ar gyfer gwasanaethau post, a sefydlwyd o dan fframwaith Swyddfa Masnach y Llywodraeth. Y cyflenwr llwyddiannus a benodwyd, o ganlyniad i broses dendro, oedd TNT. Fodd bynnag, cymharol fach oedd lefel yr ymateb, a dim ond 11 o sefydliadau oedd yn defnyddio'r cytundeb, a thrwch sector cyhoeddus Cymru yn cael gwasanaeth llawn oddi wrth y Post Brenhinol. Bydd y cytundeb hwn yn dod i ben yn naturiol ar 31 Mawrth 2010. Bydd modd i sefydliadau yng Nghymru sicrhau gwasanaethau post oddi wrth y cyflenwyr ar fframwaith Swyddfa Masnach y Llywodraeth sy'n cael ei roi allan i dendr am yr eildro a bydd fframwaith newydd yn ei le o 1 Ebrill 2010. Mae'n debygol, fodd bynnag, y bydd y rhan fwyaf o sefydliadau sector cyhoeddus Cymru yn parhau i ddefnyddio'r Post Brenhinol drwy'r fframwaith hwn.

### Ymosodiadau Rhywiol

**C11 Val Lloyd:** Beth mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i gefnogi dioddefwyr ymosodiadau rhywiol yng Nghymru? OAQ(3)0981(SJL)

**Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol (Brian Gibbons):** Yr ydym wedi gweithio gyda'r Swyddfa Gartref i ddatblygu chwe chanolfan atgyfeirio ymosodiadau rhywiol yng Nghymru. Eleni yr ydym wedi darparu arian cyfalaf gwerth £76,924 i Lwybrau Newydd a Heddlu Dyfed Powys i brynu cerbyd sy'n tynnu sylw at ddiogelwch, er mwyn cynnig gwasanaeth allgymorth. Darparwyd hefyd £20,000 i gefnogi gwasanaeth treisio ac ymosodiadau rhywiol Caernarfon.

### Cynllun Cydraddoldeb Sengl

**C12 Val Lloyd:** Sut y bydd y cynllun cydraddoldeb sengl yn gwella cydraddoldeb yng Nghymru? OAQ(3)0982(SJL)

**Brian Gibbons:** Mae'r cynllun cydraddoldeb sengl yn nodi ein blaenoriaethau'n glir wrth

fynd i'r afael ag anghydraddoldeb, a chyn deddfwriaeth y Ddeddf Gydraddoldeb, mae'n cryfhau ein hymrwymiad i sicrhau cyfle cyfartal i bawb. Mae'n pennu'r targedau a'r cerrig milltir a fydd yn ein galluogi i ddangos yn gyhoeddus lle'r ydym arni.

### Trais Domestig

**C13 Helen Mary Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am wasanaethau cefnogi ar gyfer menywod sy'n ddioddefwyr trais domestig a'u plant? OAQ(3)1030(SJL)

**Brian Gibbons:** Swm o £3.7 miliwn yw cyllideb Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer cam-drin domestig a thrais yn erbyn menywod ar hyn o bryd. Bydd hyn yn cynyddu 33 y cant i £4.7 miliwn o fis Ebrill 2010. Dyfernir 90 y cant o'r arian hwn i fentrau i gefnogi gwasanaethau i fenywod sy'n dioddef oherwydd cam-drin domestig ac i'w plant.

### Cyfraddau'r Dreth Gyngor

**C14 William Graham:** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i gyhoeddi canllawiau i awdurdodau lleol a fydd yn gosod y praesept ar gyfer cyfraddau'r dreth gyngor ar gyfer 2010-11? OAQ(3)0986(SJL)

**Brian Gibbons:** Yr wyf yn disgwyl y bydd awdurdodau unedol ac awdurdodau heddlu yn sicrhau bod codiadau yn y dreth gyngor cyn lleied ag y bo modd. Ar sail trafodaethau yr wyf wedi'u cael â llywodraeth leol, yr wyf yn gwybod ei bod o'r un farn y dylid cyfyngu ar godiadau gan roi ystyriaeth i amgylchiadau lleol a chenedlaethol. Yn unol ag ysbryd y gyd-ddealltwriaeth newydd a lofnodwyd gan Lywodraeth y Cynulliad a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar 12 Tachwedd mae'r naill mor benderfynol â'r llall o sicrhau bod gwasanaethau o'r radd flaenaf yn cael eu darparu i ddinasyddion yn y modd mwyaf effeithiol a chost-effeithiol posibl.

### 'Cymru'n Un'

**C15 Jonathan Morgan:** Pa gynnydd mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'i wneud ar ei hymrwymiad 'Cymru'n Un' ynghylch cyfiawnder troseddol ac ieuenctid? OAQ(3)1000(SJL)

**Brian Gibbons:** Mae Gweinidogion Cymru yn parhau i ystyried y mater hwn, gan gynnwys comisiynu gwaith gan yr Athro Rod Morgan ar ddatganoli cyfrifoldeb am y system cyfiawnder ieuenctid i Lywodraeth Cynulliad Cymru a sefydlu fforwm cyfiawnder troseddol cenedlaethol i hyrwyddo gwell ffyrdd o gydgysylltu asiantaethau datganoledig a rhai sydd heb eu datganoli.

## Cwestiynau ir Gweinidog dros Dreftadaeth

### Cofebion Rhyfel

**C9 Chris Franks:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bwysigrwydd cofebion rhyfel fel rhan o'n treftadaeth ddiwylliannol? OAQ(3)0975(HER)

**Y Gweinidog dros Dreftadaeth (Alun Ffred Jones):** Mae cofebion rhyfel yn atgof parhaol mewn cannoedd o gymunedau ledled Cymru ac maent yn rhan bwysig o'n presennol yn ogystal ag o'n gorffennol. Mae'n hollbwysig ein bod yn cofio am y rheini sydd wedi''u henwi a bod y cofebion yn cael eu cadw. Mae'n gas gennyf glywed am achosion o fandaliaeth a dwyn.

## Y Cynllun Nofio am Ddim

**C10 Lorraine Barrett:** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynllun nofio am ddim? OAQ(3)0984(HER)

**Alun Ffred Jones:** Mae'r cynllun nofio am ddim yn llwyddiannus dros ben a chafodd bron 620,000 o blant a 535,000 o oedolion fwynhau nofio am ddim yn 2007-08. Mae cynigion ar y gweill i estyn y cynllun ar gyfer plant a phobl ifanc i'r penwythnosau.

## Twristiaeth

**C11 Nick Ramsay:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bwysigrwydd treftadaeth i ddiwydiant twristiaeth Mynwy? OAQ(3)0967(HER)

**Alun Ffred Jones:** Mae'r dreftadaeth sydd gan sir Fynwy i'w marchnata yn un gyfoethog a helaeth, ac mae'n cynnig rhywbeth o ddiddordeb i bawb sy'n ymweld â'r bwrdeistref. Bydd y cynllun 'Overlooking the Wye' sy'n werth £2.8 miliwn o Gronfa Dreftadaeth y Loteri, ac sy'n cynnwys prosiectau i wella mynediad ac agor llwybrau teithio newydd rhwng safleoedd treftadaeth, yn gwneud llawer i gynyddu mwynhad ymwelwyr o'r dreftadaeth hon.

## Mentrau Iaith

**C12 Helen Mary Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gefnogaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru i fentrau iaith? OAQ(3)0974(HER)

**Alun Ffred Jones:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru, drwy law Bwrdd yr Iaith Gymraeg, yn parhau i gynnig cefnogaeth ariannol i'r 21 o fentrau iaith ledled Cymru. Mae'r mentrau iaith yn gweithio i hyrwyddo'r Gymraeg oddi mewn i'r gymuned ac i annog pobl i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd.

## Darlledu

**C13 Nerys Evans:** Pa drafodaethau diweddar mae'r Gweinidog wedi'u cael ynglŷn â materion sy'n ymwneud â darlledu yng Nghymru? OAQ(3)0987(HER)

**Alun Ffred Jones:** Yr wyf yn cael trafodaethau rheolaidd gyda Llywodraeth y DU, darlledwyr ac Ofcom ynglŷn â materion sy'n ymwneud â darlledu yng Nghymru, gan gynnwys goblygiadau adroddiad 'Prydain Ddigidol' i Gymru.

## 'Cymru'n Un'

**C14 Andrew R.T. Davies:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cynnydd at gyflawni ymrwymiadau 'Cymru'n Un' ym mhortffolio treftadaeth? OAQ(3)0945(HER)

**Alun Ffred Jones:** Yr wyf yn dal i fod yn benderfynol o gyflawni ymrwymiadau 'Cymru'n Un' ar draws fy mhortffolio. Dyma rai o'r llwyddiannau: sefydlu cwmni Saesneg newydd sbon—National Theatre Wales; moderneiddio'r rhwydwaith llyfrgelloedd cyhoeddus; a galluogi pensiynwyr i fanteisio'n rhad ac am ddim ar safleoedd treftadaeth a ariennir gan Lywodraeth y Cynulliad.

## Eisteddfod Genedlaethol 2010

**C15 William Graham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am Eisteddfod Genedlaethol 2010? OAQ(3)0961(HER)

**Alun Ffred Jones:** Mae'r Eisteddfod Genedlaethol yn rhan bwysig o'r ymdrech i sicrhau ein bod yn cyflawni ein hymrwymiad i hybu'r Gymraeg er mwyn iddi ffynnu fel iaith mewn llawer o gymunedau ledled Cymru, fel y nodwyd yn agenda 'Cymru'n Un'.